# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 8 Hydref 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion

(222)v2

**Datganiad gan y Llywydd**

Gwnaeth y Llywydd ddatganiad i nodi milfed Cyfarfod Llawn y Cynulliad ers ei sefydlu ym 1999. Dywedodd y Llywydd fod y Cynulliad heddiw yn sefydliad gwahanol iawn i'r un a gyfarfu gyntaf bymtheg mlynedd yn ôl, yn enwedig gan ein bod wedi cael pwerau deddfu ers 2011.

Dywedodd y Llywydd hefyd ei bod yn gobeithio y bydd llawer o newidiadau eraill i'r Cynulliad, dros gyfnod y mil nesaf o gyfarfodydd, gan gynnwys setliad sy'n gliriach ac yn haws ei ddeall, mwy o reolaeth gan y Cynulliad dros ei faterion a'i weithdrefnau mewnol ei hun, a chynnud yn nifer yr Aelodau i adlewyrchu cyfrifoldebau ehangach y Cynulliad.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 13.31

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 14.16

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 5 a 7 eu grwpio. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol**

Dechreuodd yr eitem am 15.00

Gofynnwyd y ddau gwestiwn.

**4 Cynnig i ddiddymu Rheoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014**

Dechreuodd yr eitem am 15.05

**NNDM5582 Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2:
Yn cytuno bod Rheoliadau Addysg (Sefydliadau Ewropeaidd) a Chymorth i Fyfyrwyr (Cymru) (Dirymu) 2014, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 18 Gorffennaf 2014, yn cael eu dirymu.

**Tynnwyd y cynnig yn ôl yn unol â Rheol Sefydlog12.27.**

**5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr arferion gorau o ran y gyllideb**

Dechreuodd yr eitem am 15.13

**NDM5591 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i'r arferion gorau o ran y gyllideb, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Gorffennaf 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch gwasanaethau orthodontig yng Nghymru**

Dechreuodd yr eitem am 15.48

**NDM5590 David Rees (Aberafan)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar wasanaethau orthodontig yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Gorffennaf 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.24

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5593 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu bod Llywodraeth Cymru, ynghyd â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, wedi sicrhau £95 miliwn o gyllid ychwanegol dros ddwy flynedd ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion yn y gyllideb newydd.

2. Yn croesawu bod cyllid hefyd wedi cael ei ymestyn i gynnwys Premiwm Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant o dan 5 oed.

3. Yn cydnabod bod y cytundeb cyllidebol dwy flynedd yn helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan ysgolion ym mlynyddoedd blaenorol y cynllun o ran sicrhau bod cyllid yn parhau.

4. Yn cydnabod pwysigrwydd y ddau gynllun o ran helpu i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawni addysgol ac o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a chefndiroedd mwy breintiedig.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 19 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.23

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.24

**NDM5594 Keith Davies (Llanelli)**

Adfywio Trefol 2.0 - Creu cymunedau trefol a chanol trefi cynaliadwy.

**Crynodeb o Bleidleisiau**

Daeth y cyfarfod i ben am 17.45

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Hydref 2014**